# Y Dinesydd

Medi 2011 Rhif 360 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# Caerdydd yn cipio'r Gwobrau

## *Rhys Iorwerth yn ennill Cadair yr Eisteddfod*




**Rhys Iorwerth yn cael ei gadeirio** - *Llun: Penri Williams*

Enillwyd cystadleuaeth y Gadair eleni ar y testun gan Rhys Iorwerth o Gaerdydd. Er iddo symud i Gaerdydd bron i ddegawd yn ôl, mae Rhys yn dal i deimlo a siarad fel hogyn o Gaernarfon. Mae'n 28 oed, ac yn gweithio i'r gwasanaeth ymchwil yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd ei ddenu i'r brifddinas yn wreiddiol â'i fryd ar astudio'r gyfraith a gwleidyddiaeth, ond dihangodd mewn dim i Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, lle graddiodd gyda BA yn 2004 ac MA yn 2005.

Beirniadwyd y gystadleuaeth gan Emyr Lewis, Donald Evans a Gruffydd Aled Williams a nodwyd ganddynt y gellid bod wedi cadeirio pedwar. Ond dilyniant Penrhynnwr a ddaeth i'r brig oherwydd ei gynildeb emosiynol, "a hynny wedi'i gyfleu mewn cynganeddu greddfol a llachar sy'n clecian ac yn goleuo'r awyr fel tân gwyllt." Mae'r dilyniant yn dweud stori garu fodern ddinesig. Mewn naw o gerddi, bob un â'i theitl eironig, ceir hanes y garwriaeth o'r cyfarfyddiad cyntaf, drwy'r gwahanu at obaith am ailgynnau'r fflam - efallai. Yn y gerdd olaf "Yr Un Hen Le" mae'r bachgen yn cael gweledigaeth hudol o'r cariad coll yn dod yn ôl ato. Codir cwestiynau yn y cerddi yn hytrach na chynnig atebion taclus.

Yng nghoridorau Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon byddai Rhys yn cael gwersi cynganeddu gan Dafydd Fôn Williams yn ystod ambell awr ginio. Mae'n edifar na fanteisiodd yn llawn ar yr addysg honno tan iddo ymuno â dosbarth barddoni Rhys Dafis yng Ngwaelod y Garth, Caerdydd. Daeth wedyn yn rhan o dîm talwrn Aberhafren, a thîm ymryson y Deheubarth maes o law. Mae ganddo docyn tymor yn stadiwm bêl-droed Dinas Caerdydd, a thocyn oes o deyrngarwch i gochion Lerpwl. Mae hefyd wedi dilyn ein tîm pêl-droed cenedlaethol i sawl cwr o'r byd. Bydd yn mynegi'r rhwystredigaeth sy'n dod yn sgîl hynny trwy daro'r drymiau a'r piano, a thrwy grwydro ardal Treganna a Glan-yr-afon, lle mae'n byw.


## *Manon Rhys yn ennill y Fedal Ryddiaith*

Llongyfarchiadau mawr i enillydd y Fedal Ryddiaith eleni, sef Manon Rhys o Gaerdydd. Y beirniaid oedd Grahame Davies, Hazel Walford Davies a Branwen Jarvis. Nofel seicolegol ar ffurf ymsonau cynnil a threiddgar yw Neb ond Ni, sydd, mewn modd dirodres, yn datgelu bywyd mewnol y cymeriadau - yn bennaf dau blentyn gydag anghenion arbennig, Siriol a Dewi, sy'n rhannu dealltwriaeth gyfriniol. Yng ngeiriau'r beirniaid "Dyma awdur crefftus a graenus, sy'n cydio'n emosiynol ac yn ddeallusol, sy'n feistr ar dafodiaith, ac sy'n ymddiried yn nychymyg y darllenydd."

Yn Nhrealaw, Cwm Rhondda, y ganwyd ac y magwyd Manon Rhys, yn chwaer fach i Megan a Mari, cyn i'r teulu symud i Brestatyn. Ar ôl graddio yn y Gymraeg yn Aberystwyth, bu'n byw ym Mhorthaethwy, Rhosgadfan a Llandwrog, cyn ymgartrefu yng Nghaerdydd dros chwarter canrif yn ôl. Mae'n briod â Jim, (sef yr Archdderwydd presennol, T. James Jones, a arweiniodd y seremoni) yn fam, ac yn fam-gu i Daniel, Mathew, Gruffudd, Joseff, Hopcyn a Dyddgu.

Mae hi'n llenor toreithiog, yn awdur sgriptiau teledu ac yn olygydd a werthfawrogodd y cyfle i gydweithio â'r Athro M. Wynn Thomas wrth olygu'r gyfrol J. Kitchener Davies: detholiad o'i waith, sef casgliad cyflawn o weithiau ei thad. Am ddeng mlynedd, cydolygodd y cylchgrawn llenyddol Taliesin gyda'r Prifardd Christine James.

Bu'n diwtor Ysgrifennu Creadigol yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ac yn diwtor achlysurol yng Nghanolfan Ysgrifennu Creadigol Tŷ Newydd. Mae hi bellach yn ysgrifennu dilyniant i'r gyfrol, Rara Avis, yn mwynhau hamddena a gweithio mewn carafán yn Sir Benfro, ac yn elwa ar berlau doethineb ei hwyrion.



**Manon Rhys yn cael ei gwobrwyo** - *Llun: Penri Williams*

# Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Hefin Mathias

Golygydd y rhifyn nesaf:
Sian Parry-Jones

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi erbyn 27 Medi at:
13 Heol Don, Yr Eglwys Newydd
Caerdydd CF14 2AR
029 20 311340
catrinmathias@hotmail.com

Bydd y Dinesydd o hyn ymlaen yn ymddangos ar y 10fed o'r mis. Gallwch anfod digwyddiadau hyd at y 10fed felly i'w cynnwys yn y calendr.

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir y Dinesydd gan
Bwyllgor y Dinesydd

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

# Pobl Hŷn Cymru

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ruth Marks yn annog i bobl hŷn yng Nghymru ysgrifennu at eu Haelodau Seneddol lleol os teimlant eu bod yn cael eu trin yn annheg wrth ddefnyddio nwyddau neu wasanaethau, megis gofal iechyd, neu yswiriant oherwydd eu hoedran. Wrth wneud hyn, mae siawns cryf y caiff Deddf Cydraddoldeb i Amddiffyn Hawliau Pobl Hŷn ei phasio yn Ebrill 2012 heb unrhyw oedi pellach. Mae gwasanaeth Cymraeg ar gael gyda Alun Thomas. Felly, os hoffech ragor o wybodaeth teimlwch yn rhydd i gysylltu â mi ar y rhif isod.

Cofion gorau
**Rhiannon Jenkins**
Gweithredwr
Greenmeadow Springs, Tongwynlais,
Caerdydd. CF15 7NE
☎ (0)29 2069 4900

# Clwb Llyfrau Llenyddiaeth Cymru a Chanolfan y Mileniwm

Bydd Ifan Morgan Jones yn trafod ***Yr Argraff Gyntaf*** (Y Lolfa 2010), gyda Grahame Davies yn arwain y drafodaeth, Nos Fawrth, Medi 20, am 7pm, yng Nghanolfan Glyn Jones, Canolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd. Yn rhad ac am ddim, ond cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru i archebu eich lle:
post@llenyddiaethcymru.org
☎ 029 2047 2266.

***Leusa Llewelyn***

# Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
PETHAU BYCHAIN, 20 Stryd Bute, Bae Caerdydd, CF10 5BZ
DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
VICTORIA FEARN GALLERY, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
HALLS, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
FOOD FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
VEG VENDOR, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA
FFERYLLFA CYNCOED PHARMACY, 364 Heol y Cyncoed, CF23 6SA

# Yr Aelwyd Hamdden yn Ugain Oed

Ym mis Medi eleni bydd Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd yn ugain oed. Fe'i sefydlwyd gan wirfoddolwyr i gwrdd â'r angen am gyfle i bobl hŷn gymdeithasu yn ystod y prynhawn, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu'r Aelwyd o gymorth i lu o Gymry Gymraeg wedi ymddeol, yn arbennig y rhai a symudodd i Gaerdydd o bob cwr o Gymru i fod yn agos at eu teuluoedd.

Cynhelir y cyfarfodydd bob yn ail brynhawn Mercher, am 2.0 o'r gloch yn festri Capel Minny Street, Y Waun Ddyfal. Agorir y tymor newydd ar Fedi'r 7fed gydag anerchiad gan y Llywydd, Mr Idwal Hughes. Yna ar y 21ain o Fedi cynhelir cyfarfod dathlu a the parti yng nghwmni'r Arglwydd Faer Caerdydd, Y Cynghorydd Athro Delme Bowen. Trefnwyd rhaglen amrywiol a diddorol ar gyfer y flwyddyn, er engraifft sgwrs am deulu Abram Wood gan Teleri Grey, datganiad gan Huw Euron, enillydd y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy yn 2010, ac ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol dan arweiniad Ann Saer. Edrychwn ymlaen at ddathlu'r Nadolig yng nghwmni'r Parchg. Dyfrig Lloyd, Eglwys Dewi Sant, a Gŵyl Ddewi gyda'r Prifardd Aled Gwyn. Ac os ydych yn hoff o ganu, mae côr yr Aelwyd yn ymarfer bob yn ail fore Mawrth.

Beth am ymuno â ni - am dâl aelodaeth o £5 y flwyddyn cewch groeso mawr, cwmni da a phaned, a digon i'ch diddanu.

*Robin Brown*

# Clwb Gwawr Dydd

Llygaid y Dydd yw enw newydd Clwb Gwawr Caerdydd. Dyma'r bedwaredd flwyddyn i'r clwb sy'n cyfarfod yng Nghlwb Bowls Penhill, cartref CRCC. Fe fydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yno nos Iau Medi 8 am 8pm. Fe fydd hi'n noson gymdeithasol yn llawn hwyl a chyfle i bawb gymdeithasu a dal fyny ar ôl seibiant yr haf. Mae croeso cynnes i aelodau, aelodau newydd a ffrindiau.

Dewch draw i'r clwb bowls nos Iau Medi 8fed i gael blas ar yr hyn fydd ar gael am y flwyddyn nesaf. Ymhlith y nosweithiau eraill y mae noson steilio gwallt, golff, zumba, blasu gwin a ffotomarathon. Nos Iau Hydref 6ed fe fydd 'na noson yng nghwmni Gwyneth Glyn. Fe fydd hi'n darllen peth o'i gwaith, yn canu ac yn rhoi cefndir rhai o'r caneuon. Croeso cynnes i bawb.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch drwy dudalen Facebook: ClwbGwawrCaerdydd neu ar e-bost: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com

# Gŵyl y Glaniad

Ar Orffennaf 28ain 1865, ar ôl mordaith hir ac anodd, glaniodd llong y Mimosa ar draeth Porth Madryn ym Mhatagonia - ac ynddi yr arloeswyr cyntaf o Gymru a ymfudodd i'r Wladfa ym Mhatagonia. Ar draeth Porth Madryn cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am gyrraedd eu cartref newydd yn saff. Byth oddi ar y diwrnod tyngedfennol hwnnw, mae trigolion y Wladfa Gymreig wedi cynnal gŵyl bob Gorffennaf 28ain i gofio'r achlysur hanesyddol hwn. Sef Gŵyl y Glaniad.

Yma yng Nghymru hefyd - fynychaf ar y Sadwrn agosaf i Orffennaf 28ain - byddwn ninnau aelodau Cymdeithas Cymru-Ariannin yn dathlu Gŵyl y Glaniad. Yng Nghymru mae'r ŵyl yn symudol ac eleni ar Orffennaf 23ain tro Caerdydd yr oedd hi i westai'r Ŵyl.



Tywynnai'r haul fe petaem yn y Wladfa ei hun wrth i dros 60 o Gymry ac Archentwyr ymgynnull yng nghapel bach Penrhiw yn Amgueddfa Sain Ffagan i ddathlu. Roedd hyn yn foment eithaf emosiynol i mi gan y gwyddwn fod fy Mam-gu (Elen Davies - Nel Fach y Bwcs) yn mynychu'r Capel bach Undodaidd yn ei safle gwreiddiol yn Nrefach Felindre. Cysylltiad felly, â Phatagonia. Fe'n croesawyd yn wresog gan Angharad Rogers - Cadeirydd Cangen y De o Gymdeithas Cymru-Ariannin. Cyd-ganodd bawb yr emyn 'Draw, draw tu hwnt i'r moroedd' gan Nantlais, a gyfansoddodd ar ôl ei ymweliad â Phatagonia ym 1939.

Yna, yn yr heulwen, cawsom ein tywys yn gelfydd gan Gerallt Nash Uwch Guradur yr Amgueddfa o gwmpas rhai o adeiladau Sain Ffagan. Yn Fferm Abernodwydd (1678) gallem ddychmygu pa mor galed oedd bywyd ar deuluoedd 'slawer dydd. Roedd teulu o wyth o blant yn byw yn nhyddyn bach twt Llain Fadyn. Felly yr oedd hi hefyd mae'n siŵr yn nyddiau cynnar y Wladfa Gymreig - byw mewn tai bach tlawd cyfyng a chrafu bywoliaeth o'r tir. Dotiodd pawb at goethni syml Eglwys Teilo Sant - a'r murluniau lliwgar a dadlennol. Ac yn nhyddyn Nant Wallter - tŷ clom, (wedi ei adeiladu o bridd a gwellt - fel llawer o dai cynnar Patagonia) wrth ei ail-adeiladu, fe ddarganfuwyd darn o bapur newydd wedi ei stwffio i mewn wrth y ffenest i gadw'r draft allan. Darn oedd o gyhoeddiad a elwid 'Y Byd Cymreig' yn dyddio o Ebrill 1865 ac ynddo hysbyseb i bob Cymro anturus ymfudo i Batagonia ar long yr Halton Castle. Gwyddom erbyn heddiw na hwyliodd y llong honno, ac y bu'n rhaid dod o hyd i long arall ar frys i gario'r arloeswyr i'r Ariannin. Honno yn un o'r llongau enwocaf yn hanes Cymru - y Mimosa.

Wedi cael dogn helaeth o hanes roedd pawb yn barod am y rhan nesaf o'r ŵyl - sef y lluniaeth. Ac yn Ffreutur yr Amgueddfa ar ôl canu anthem genedlaethol yr Ariannin (Al Gran Pueblo Argentino Salud!) cafwyd bwyd a gwledd o gwmnïaeth, sgwrsio, trafod, raffl a diwylliant - gan y Parchedig Dafydd Edwards a ddarllenodd ei gyfieithiadau o gerddi Sbaeneg am y Wladfa. Cawsom glywed y gwreiddiol oddi wrth Walter Ariel Brooks a Miriam. Roedd hi'n braf cael cwrdd â chymaint o'n cefndryd o'r Ariannin, y myfyrwyr sydd draw yma yn gloywi eu Cymraeg, y rhai sydd ar ymweliad â'r 'hen Wlad' (chwedl hwythau) a'r rhai sydd wedi ymgartrefu bellach yng Nghymru.

Gadawyd yr Amgueddfa yn llon, gan ein bod am barhau'r gwmnïaeth yn nhafarn y Mochyn Du -a dyna a wnaethpwyd ymysg cwrw Cymru, gwin Mendoza a chymysgedd afieithus o Gymraeg a Sbaeneg. Diwrnod hyfryd, diwrnod i'w gofio a gobeithio'n wir y caiff y Gwladfawyr gystal hwyl arni yn eu Gŵyl y Glaniad hwythau.

*Eiry Palfrey*


**AIL HYSBYSEB**

**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

## Cynorthwy-ydd Personol i'r Ysgrifennydd Cyffredinol

**Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn chwilio am unigolyn brwdfrydig ac egnïol i weithio yn Nhŷ John Penri, Abertawe.**

**Gwahoddir ceisiadau gan rai sydd o argyhoeddiad Cristnogol, ac sy'n drwyadl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg.**

**Ceir disgrifiad llawnach o'r swydd, amodau gwaith a chyflog, a ffurflen gais gan:**

**Yr Ysgrifennydd Gweinyddol,**
**Tŷ John Penri,**
**5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,**
**Bro Abertawe,**
**ABERTAWE. SA7 0AJ**

**Ffôn: 01792-795888**
**e-bost: undeb@annibynwyr.org**

***Dyddiad cau:* 14 Hydref 2011**
**Cynhelir y cyfweliadau ar 8 Tachwedd 2011**

# Llongyfarchiadau i

Tomos a Gwerfyl Morse Rhiwbeina ar enedigaeth Bleddyn ar yr 30ain o Fehefin yn Ysbyty'r Brifysgol. Brawd bach i Aneurin a Gwenllïan, ac ŵyr arall i Guto a Lona Roberts Llanisien a Howard a Mima Morse Llangeitho.

Colin Murphy, Meisgyn, ond gynt o Drelai ar ennill gradd 2.1 yn Y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ar ôl astudio'n allanol dros nifer o flynyddoedd. Mae'n gweithio yn Amgueddfa Sain Ffagan.

Geraint Talfan Davies yr Eglwys Newydd ar dderbyn Gradd er Anrhydedd gan Brifysgol Abertawe mewn seremoni yn y ddinas honno a gynhaliwyd ar y 18fed o Orffennaf.

Hywel ac Elin Roberts Grangetown ar eu priodas ar y 25 o Fehefin yn Eglwys y Waun yn y Waunfawr Caernarfon. Swyddog Ieuenctid Canolfan yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm yw Hywel ac mae Elin yn gweithio yn S4C.

Iwan Walters a Kimberly Spiller ar y briodas yn Sain Andreas ger Dinas Powys ar y 19eg o Orffennaf. Mae nhw wedi ymgartrefu yn ardal Treganna.

Sian Elin Couch Llanisien ac Ian Golden, Y Fro, ar eu priodas yng Nghapel y Crwys ar y 6ed o Awst. Maen nhw wedi ymgartrefu yng Nghaerffili.

Ynyr Roberts a Gwenllian Glyn Caerdydd ar enedigaeth eu cyntaf-anedig, sef Deio Glyn ar y 5ed o Fehefin; ŵyr i Afryl ac Aled Glyn, Cyncoed Caerdydd a'r Parchedig Ganon Tegid a Nant Roberts Llanrug.

Non ac Iestyn Morris Caerdydd ar enedigaeth Arwen Mererid ar ddiwedd mis Mai. Mae modryb i'r fechan, sef Catrin Jungent, yn byw yn Nhrelew yn y Wladfa.

Olga Esdochimosa, gynt o Foldafia, am gael ei chydnabod fel Dysgwraig y Flwyddyn yn y Coleg. Symudodd Olga i Gymru yn 1999. Cymraeg yw ei thrydedd iaith bellach gan ei bod eisoes yn rhugl mewn Saesneg a Rwsieg. Fe'i henwebwyd am yr anrhydedd gan ei thiwtor Cymraeg Jemima Howard Jones.

Priodwyd Ceiri Torjussen, mab Alan a Glyneth Torjussen, Rhiwbina a Patricia Rosales yn Los Angeles ar y 29ain o Orffennaf 2011. Bydd y ddau yn ymgartrefu a dilyn eu gyrfaoedd yn L.A. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau.

**CYWIRIAD**

Llongyfarchiadau i Colin a Helen Coleman (ac nid Chapman fel a nodwyd mewn rhifyn blaenorol) ar enedigaeth Erin Haf ; wyres i Hugh a Gwenda Williams Rhiwbeina a David a Susan Coleman Bedwas.

# BANDIAU'R BANNAU

## *Adolygiad o Ŵyl Jas Aberhonddu*

**Awst 12-14 2011**

Mae rhywbeth rhyfeddol wedi digwydd i Ŵyl Jas Aberhonddu- nid un ŵyl ydyw bellach ond dwy! Roedd yr ŵyl swyddogol yn cynnig 53 o gyngherddau dros y tridiau, ond yr ŵyl Ymylol *(Fringe)* yn cynnig 150 o fandiau rhwng y nos Iau a'r nos Lun, a'r mwyafrif o'r rheini yn fandiau o Gymru. Felly, roedd digon o ddewis i bawb.

Gair o feirniadaeth negyddol yn gyntaf: ers i bobl Gŵyl Lyfrau y Gelli Gandryll, sef trefnwyr newydd yr ŵyl, ail lansio'r achlysur rhyw dair blynedd yn ôl, gyda chwmni *Serious Music* o Lundain yn trefnu'r cerddorion, mae'r ŵyl wedi dechrau troi'n Seisnig ei naws. Dim ond tri band o Gymru oedd yno allan o 53; diolch byth, felly, am Gymreictod bandiau'r Ymylol.

Y sêr eleni? Cafwyd rhes bianyddiol gwych. Yn eu plith oedd y Sais Robert Michell yn agor nos Wener, yna Robert Glasper ac Elan Mehler o Efrog Newydd, Glanco Venien o'r Eidal, y bytholwyrdd John Taylor, (roedd e'n wefreiddiol); felly hefyd Monty Alexander o India'r Gorllewin, môr o sacs Derek Nash a *Sax Appeal* yr hynafgwr John Surman, Tomaso Starace o'r Eidal, Tore Brumborg o Norwy a Maceo Parker a Band Mawr y BBC.

Y prynhawn Sadwrn roddodd y pleser mwyaf i mi eleni- tri band o'r De y tu cefn i Westy'r George, y gantores 'blues' nerthol Li Harding, (Bae Caerdydd), Gary Phillips o Abertawe ar y gitâr yn gefn yn ei morio hi; yna *Wonderbrass*, y band stryd o Gaerdydd, a phawb yn dawnsio i fand hynaf Cymry, sef Mike Harries a'r *Root Doctors* yn cloi'r prynhawn, eto o Gaerdydd.

Elfennau positif yr ŵyl? Tyfiant Ymylol, y torfeydd da, mwy o Gymry Cymraeg eleni (doedd yr ŵyl ddim yn gorfod cystadlu â'r Eisteddfod Genedlaethol), a gwir uchafbwynt i gloi pen y mwdwl ar y nos Sul, sef Fenni Kuti a'i fand mawr a'i ddawnswyr, *Positive Force* (cytuniad ysbrydoledig o jas a cherddoriaeth byd yn cynnwys seiniau a saif yn fy nghof am hir iawn), ac enwogion Nigeria yn gorffen eu taith byd yng Nghymru. Dewch yn llu y flwyddyn nesaf.

***Emyr Wyn Williams***
*Gohebydd Jas y BBC*

*Yn yr Hydref bydd Emyr yn portreadu Band Mawr y Brifddinas, llawer ohonynt yn Gymry Cymraeg, fel ei arweinydd.*



# COLOFNYDD Y MIS

## Bethan Mair Williams



Yn ôl ym mis Tachwedd cefais yr anrhydedd o fod yn Llywydd ar fudiad Urdd Gobaith Cymru. Mae'r flwyddyn yn tynnu at ei therfyn erbyn hyn ac yn wir mae wedi hedfan ac rwyf wedi mwynhau'r holl brofiad.

Gwaith Llywydd yr Urdd yw bod yn llysgennad dros weithgareddau'r Urdd a bod yn wyneb ifanc, bywiog sy'n cynrychioli'r mudiad mewn amrywiol weithgareddau.

Yn rhinwedd y swydd byddaf yn mynychu nifer o gyfarfodydd, siarad â'r wasg a mynychu gweithgareddau'r mudiad.

Mae'r Urdd wedi bod yn agos at fy nghalon ers yn blentyn bach. Rwyf wedi hen arfer cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, a hynny'n unigol, mewn corau a phartïon yn ogystal â chael llwyddiant sawl gwaith wrth hyfforddi plant Ysgol Gymraeg Treganna gyda fy nghyd-hyfforddwyr Siân Powys a Ryan Chappell.

Mor braf yw gweld plant a phobl ifanc yn perfformio a chystadlu. Gan fy mod yn athrawes gallaf weld gymaint o fwynhad a boddhad mae'r plant yn ei gael wrth gystadlu a pherfformio. Mae'r profiad maent yn ei gael o berfformio ar lwyfan ac o flaen cynulleidfa yn amhrisiadwy ac yn eu datblygu fel person. Mae'n rhaid iddynt ddelio â llwyddiant yn ogystal â siom a derbyn nad oes modd ennill bob tro.

Gan fod yr Eisteddfod yn symud ardal o flwyddyn i flwyddyn mae'n brofiad gwerthfawr i'r plant gael gweld gwahanol rannau o Gymru a chlywed gwahanol dafodieithoedd. Bydd yn braf mynd â disgyblion Ysgol Treganna i fy mro enedigol y flwyddyn nesaf – Eryri!

Mae'r Urdd yn fudiad arbennig iawn sydd â 51,000 o aelodau! Wrth ofyn y cwestiwn canlynol i'r plant yn yr ysgol 'Beth ydych chi'n ei fwynhau wrth fod yn aelod o'r Urdd?' Cefais restr hirfaith o atebion, yn cynnwys:- cystadlu yn yr Eisteddfod, twrnamaint pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, athletau, gymnasteg, criced, gala nofio, celf a chrefft, cystadleuaeth coginio, Rimbojam, mynd i Langrannog, i enwi dim ond rhai ohonynt!

Un o'r uchafbwyntiau dros yr haf oedd mynychu Gemau Cymru. Roedd yn ddigwyddiad hynod gyffrous a newydd gyda phobl ifanc yn cystadlu dros dri diwrnod yng Nghaerdydd. Roedd y brifddinas dan ei sang gyda naw maes cystadlu yn cynnwys boccia a triathlon, ac nid yw'r rhain wedi bod ymysg chwaraeon 'traddodiadol' yr Urdd o'r blaen. Yn sicr roedd yn benwythnos oedd yn dal ysbryd Gemau Olympaidd 2012.

Wrth fynychu'r holl ddigwyddiadau a chyfarfodydd yn ystod y flwyddyn rwy'n sylweddoli gymaint o waith clodwiw mae staff yr Urdd a'r gwirfoddolwyr yn ei wneud y tu ôl i'r llenni, er mwyn sicrhau llwyddiant y mudiad. Maent yn gweithio mor galed ac rwyf yn eu hedmygu yn fawr.

Mae'r Urdd yn rhoi llwyfan i blant a phobl ifanc Cymru ac yn helpu i greu sêr y dyfodol. Diolch i'r mudiad am yr holl brofiadau ac am greu atgofion melys iawn i mi. Byddaf yn cofio 2011 am byth.


menter@caerdydd.org

menter caerdydd

Caerdydd

Cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn cychwyn yng Nghaerdydd a'r Fro o fis Medi.

Cyrsiau ar bob lefel gan gynnwys Gloywi Iaith cwrs sy'n addas ar gyfer siaradwyr rhugl.

Mae'r cwrs yn esbonio gramadeg, ac yn ymarfer sgiliau ysgrifennu, siarad, darllen a chyfieithu.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.learnwelsh.co.uk neu cysylltwch ag Anwen i dderbyn copi o'r prosbectws - robertsa27@cf.ac.uk


## Rysáit Mis Medi



## PARSELI WYLYS

Dyma rysait sy'n addas i goginio ar y barbeciw ac yn berffaith i weini ar ben ei hun i lysieuwyr, fel dechreufwyd neu fel rhan o brif gwrs'

***Cynhwysion***

- 2 wylys neu gorbwmpen mawr
- 100ml/4 owns olew olewydd
- 2 ddarn garlleg wedi'u gwasgu
- Croen 1 lemon wedi'i gratio'n fân
- 150g/v6 owns caws Ffetys
- 10 deilen fawr basil ffres
- 10 tomato heulgoch

1. Torrwch bob pen yr wylys a thorrwch ar hyd ei ochor mewn haenau ½.
2. Gosodwch mewn colandr gyda halen ar bob un darn.
3. Gadewch am un awr; yna golchwch yr halen oddi ar y llysiau a sychwch gyda phapur cegin.
4. Cymysgwch yr olew olewydd, garlleg a chroen y lemon. Brwsiwch y cymysgedd dros ddwy ochr yr wylys a blaswch gyda phupur du. Rhowch i goginio ar farbeciw poeth neu ridyll am 2-3 munud nes ei fod yn frown ac wedi meddalu.
5. Tynnwch i ffwrdd.
6. Rhowch un ddeilen basil, haenen o gaws ac un tomato heulgoch ar ochor fwyaf tew'r wylys. Plygwch drosto a rhowch sgiwer ynddi i gadw'n dyn.
7. Brwsiwch ragor o'r olew lemon drostynt a choginiwch ar y barbeciw eto am 4-5 munud bob ochr.
8. Gweinwch fel dechreufwyd neu brif gwrs i lysieuwyr gyda salad.

Gallwch ddefnyddio caws Gorwydd Caerffili fel dewis arall.

# Cydymdeimlo â

Theulu'r diweddar Iolo Pyrs Griffith a fu farw'n dawel yn ei gartref ar y 27ain o Fehefin. Bu'r angladd yn Eglwys y Santes Fair Sain Ffagan ar y 4ydd o Orffennaf ac yna yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen.

Teulu'r diweddar Dr Dafydd Huws, Ffwrnes Blwm, Caerffili a fu farw'n dawel yn ei gartref yn 75 mlwydd oed ar y 3ydd o Orffennaf. Bu'r angladd yng Nghapel Bow Street ger Aberystwyth ar y 9fed o Orffennaf. Roedd yn genedlaetholwr brwd a bu'n Gadeirydd Plaid Cymru. Ef oedd y cyntaf i ennill sedd ar Gyngor Caerdydd yn enw'r Blaid yn Saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Yn ei ieuenctid bu'n chwarae rygbi dros dîm Aelwyd yr Urdd Caerdydd ac yn aelod o Gôr yr Aelwyd. Seiciatrydd oedd e wrth ei alwedigaeth ac yn arloeswr ym myd ynni gwynt. Fe'i gwelir ei eisiau yn fawr. Ar fore Sul y 24ain o Orffennaf daeth tyrfa ynghyd mewn gwasanaeth coffa i Dafydd yng Nghapel Bethlehem Gwaelod y Garth. Y gweinidog, sef y Parch R.Alun Evans, a arweiniodd y gwasanaeth a chafwyd nifer o deyrngedau yn ystod y gwasanaeth, yn ogystal â chyfraniadau gan Gôr Caerdydd a phedwarawd y capel.

Teulu'r diweddar Ceri Rowlands Llwynfedw, ond gynt o Dywyn, a fu farw yn 87 mlwydd oed ar y 25ain o Fehefin. Bu'n athro Ysgrythur yn Ysgol Uwchradd Llanisien cyn ei ymddeoliad, ac roedd e'n aelod yng Nghapel y Crwys. Claddwyd ei weddillion ym Mynwent Amlosgfa'r Ddraenen Wen mewn seremoni breifat.

Teulu'r diweddar Feddyg Teulu Dr Gwion Rhys yn 38 mlwydd oed a laddwyd mewn car yn ardal Chwilog Llŷn ar y 12fed o Orffennaf. Gedy weddw a phedwar o blant. Bu'r angladd ar y 12fed o Orffennaf yng Nghapel Siloh Chwilog ac wedi hynny ym Mynwent Chwilog.

Teulu'r diweddar Mair Rees 98 mlwydd oed yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd ar yr 16eg o Orffennaf. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl Y Barri ar y 26ain Orffennaf ac yna ym mynwent Y Barri.

Teulu'r diweddar Barchedig Arthur Wynne Edwards Llandaf a fu farw'n dawel yn Ysbyty Llanddochau ar yr 21ain o Orffennaf. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Bwlchgwynt Tregaron ar y 27ain o Orffennaf.

Yn 95 mlwydd oed bu farw'r Dr Geraint Bowen, Cae-athro Caernarfon, y llenor, bardd, athro ac arolygwr a chyn Archdderwydd Cymru ar yr 16 o Orffennaf. Enillodd Gadair Eisteddfod Aberpennar yn 1946. Tra bu'n byw yn Rhiwbeina, gwasanaethodd fel Arolygwr Ysgolion llwyddiannus gan ddarbwyllo'r Awdurdod i agor Uned Gymraeg yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach yn Rhiwbeina yn 1964. Ond pan ddaeth Rhiwbeina yn rhan o Awdurdod Caerdydd, caewyd yr uned a gorfu i'r disgyblion ymuno â phlant Ysgol Bryntaf a oedd ar y pryd ar safle Ysgol Gynradd Viriamu Jones yng Ngabalfa. Y brifathrawes yn Ysgol Llanisien Fach oedd y diweddar Eluned Bere y Barri a oedd yn un o ddisgynyddion Michael D. Jones, sefydlydd y Wladfa ym Mhatagonia.

Teulu y diweddar Jinah Watkin Jones Y Bontfaen, a fu farw'n dawel ar yr 16eg o Awst yn 101 mlwydd oed. Bu gwasanaeth coffa iddi yng Nghapel Salem Treganna ar y 5ed o Fedi ac fe'i hamlosgwyd y diwrnod canlynol yn Wrecsam.

# Ôl-lwybrau

## 'Y Ddaear dan ein Traed'

**John Gwynfor Jones**

'Where do you start studying history?' Ac atebodd yr athro Hanes wedyn: 'At your feet of course!' Saesneg oedd yr iaith y dyddiau hynny yn Ysgol Ramadeg Llanrwst er bod yr athrawon bron i gyd yn Gymry glan gloyw. Pwysicach oedd dysgu dyddiadau teyrnasiad brenhinoedd Lloegr dros y canrifoedd na dim arall. Diolch am ddiwylliant aelwyd, ysgol gynradd ac Ysgol Sul i'm dysgu am gewri cymdogaeth fel William Salesbury, William Morgan, Edmwnd Prys ac eraill. Trysor i blant o bob oedran yw dysgu am gyfoeth eu treftadaeth gynhenid, boed hynny mewn gwlad neu dref.

A dyma ni, y rhan fwyaf ohonom wedi hen ymsefydlu bellach yn y brifddinas a'i chymhlethdod hiliol. Fel Cymry fe'n clymir â'n gilydd drwy gyfrwng ein hymdeimlad o berthyn i gymdogaeth. Mae gofyn un cwestiwn i newydd-ddyfodiaid yn hollol naturiol inni: 'O ble 'dach chi'n dod?', hynny yw, ble mae eich gwreiddiau chi?

Magu gwreiddiau newydd a wnaethom mewn dinas a dyfodd o fod yn dref fechan i fod yn 'Chicago Cymru' oblegid ei ffyniant aruthrol. Beth sydd dan ein traed ac o'n cwmpas heddiw wrth droedio olion o hen strydoedd y ddinas 'ma? Etifeddiaeth? Ie, oblegid mwynhawn waddol y Cymry a fu'n gyfrwng i roi anadl i'r ymwybyddiaeth Gymreig yn nyddiau'r bri masnachol. Meddyliwch am gewri'n magu gwreiddiau newydd gyda'u teuluoedd ar aelwydydd ac mewn capeli ac eglwysi, a hefyd am gyfraniad unigolion fel Dafydd Morganwg ac Edward Thomas (Cochfarf), y cofir ei farwolaeth ganrif yn ôl y flwyddyn nesaf.

Mae gennym fel Cymry'r brifddinas le i ymfalchïo'n fawr yn yr hyn sydd o dan ein traed ac o'n cwmpas o fewn ffiniau ein hetifeddiaeth newydd. Ie, ychwanegodd yr athro, o'i gyfieithu: 'a bydd yr hyn a ganfyddi ac a warchodi yn gymorth iti ledu dy orwelion a chyfoethogi dy hunaniaeth.' Mewn geiriau eraill dyna ddywedodd Emrys ap Iwan hefyd, cawr arall yn ei ddydd.


Prifysgol Cymru
University of Wales

**Siop Prifysgol Cymru**

- Llyfrau a chyfnodolion o'r safon uchaf a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn Gymraeg a Saesneg.
- Llyfrau ar gyfer y darllenydd lleyg, myfyrwyr ac academyddion.
- Papurau ymchwil a ddarlithoedd y Ganolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd, Aberystwyth
- Dillad, gemwaith ac anrhegion
- Bargeinion

Ymwelwch â ni yng nghwarter y Castell, Caerdydd:
12 Heol Fawr • Caerdydd • CF10 1AX
Ffôn: 029 20228205 • E-bost: siop@cymru.ac.uk

**EICH PRIODAS**
**FIDEO DVD a FFOTOGRAFFIAETH**

Ffilmio a Golygu i DVD
Ffotograffiaeth Priodas

Gwasanaeth Cymraeg gan ŵr camera teledu proffesiynol a phrofiadol.
Cofnodwch eich diwrnod ar fideo neu ar ffotograff.

Ymholiadau/Manylion pellach:
**07747 750838**
www.fideobiz.com

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Daeth ac aeth – Y Genedlaethol. Da iawn, Wrecsam a'r Fro. Daeth ac aiff – y gyfrol Cyfansoddiadau a Beirnidaethau. Daeth - oherwydd fe'i prynais. Aiff - oherwydd rwyf wedi dechrau fy arfer flynyddol o'i darllen a'i datgymalu, gan gadw rhai darnau a thaflu eraill.

Ychydig o wybod a deall sydd gennyf ynghylch dyfnion bethau llenyddiaeth aruchel, felly byddaf yn chwilota am gyffyrddiadau gwyddoniaeth. Hyd yma deunydd y Goron a'r Gadair gafodd fy sylw. Gan mai ond y buddugol sy'n cael eu dyfynnu'n llawn, i mi mae sylwadau'r beirniaid ar draws yr holl gynigion lawn mor ddifyr, yn enwedig os oes amrywiaeth barn, fel na fu eleni ynghylch y Gadair ond a fu ynghylch y Goron.

Hyd y gallaf ddirnad ar y darlleniad cyntaf mae'r cynigion am y Gadair yn hesb o gyffyrddiadau gwyddoniaeth. Hwyrach y testun, Clawdd Terfyn, oedd ar fai. Serch hynny, dotiais at y cyflwyniadau beirniadaethol. Go brin bod enghreifftiau gwell o gloriannu arbenigol ac ymadroddi cain cyfatebol; y tri yn unfryd ar haeddiant y Bardd Cadeiriog. Wedi meddwl, rwyn gweld un cyffyrddiad gwyddoniaeth posibl yn yr awdl fuddugol, sef, un o'r is-deitlau – Pam fod eira'n wyn? Ond rwyn gwrthod cynnig ymateb gwyddonol oherwydd fy nghasineb at y 'fod' yn lle 'mae'. Gwae ti, Dafydd Iwan!

Mwy addawol, o ran posibiliadau gwyddonol, oedd testun y Goron – Gwythiennau, gyda 35 o gynigion dilys. Yn ôl un beirniad, 'Dewisodd ambell un sôn am yr hollt…sydd yn cynnwys mwyn gwahanol i'r graig o'i hamgylch… Eraill yn canu am y pibellau sy'n cario gwaed o amrywiol rannau'r corff yn ôl i'r galon – neu ohoni'. Wel, pa un yw cyfeiriad llif y gwaed mewn gwythiennau? Hwyrach nid yw hyn o bwys i feirniad barddoniaeth, ond y mae o'r pwys mwyaf i lawfeddyg ac i glaf sy dan ei gyllell. Ni fuasai'r beirniad mewn penbleth petasai ond wedi talu sylw i'r cyntaf mewn cyfres a nodir gan y beirniad ei hun o wendidau cyffredinol y cynigion barddonol, 'Does posib na allwn fanteisio ar yr holl wybodaeth ffeithiol sydd am waed a geneteg ar y teledu ac ar y We'. Felly, dyma waith cartref i ddarllenwyr y golofn hon. Datgelir yr ateb yng nghyfarfod cyntaf ein tymor newydd, Hydref 17eg. Dewch yn llu, os dim ond i baratoi at gynnal sgwrs cyn mynd dan y gyllell.

***Neville Evans*** (029 2084 3806)


CALON LÂN

Ceir Priodas | Wedding Cars

Mae **Ceir Priodas Calon Lân** yn gwmni bach teuluol.

Rydym yn cynnig cludiant moethus ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil yn Ne Cymru. Rydym yn darparu gwasanaeth proffesiynol a chyfeillgar am bris rhesymol.

Porwch drwy'n gwefan a pheidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni am ragor o wybodaeth.

**Ffôn: 07966 009957**

E-Bost : ymholiadau@calon-lan.net

www.calon-lan.net


# *Helfa Drysor Penarth*

Er gwaetha'r tywydd anwadal ymgasglodd tua dwsin brwd yng ngorsaf rheilffordd Penarth am 6.30 nos Wener 17eg o Fehefin. Yno'n barod amdanom a'r cliwiau dan ei gesail roedd Keith Bush, trefnydd yr helfa drysor. Braf oedd cael croesawu rhai o drigolion Penarth i'n mysg y tro hwn.

Ein nod oedd gorffen y daith erbyn 8 o'r gloch a chyfarfod yn y Windsor ble roedd Keith yn aros amdanom gyda'r atebion. Yn ei ddull dihafal roedd Keith wedi gosod pob pos ar ffyrdd pennill. Dyma ran o un o'r posau. Ysgwn i faint o ddarllenwyr y Dinesydd all ddatrys hwn

> "Caerdydd sydd â nifer, Penarth dim ond un,
> A hwnnw yn cario syrnam y cwîn"

Mae helfa drysor yn ffordd wych o orfodi dyn i dalu sylw manwl i'r hyn sydd dan ei drwyn, pethau y byddwn yn aml yn mynd heibio iddynt yn ddifeddwl gan golli llawer o wybodaeth ddifyr am ardal. Erbyn diwedd y noson roedd pawb yn gwybod llawer mwy am Benarth. Daethom i wybod mai Mr Thompson, (oedd yn berchen ar gasgliad o waith yr arlunydd Turner) a sefydlodd oriel Turner ym Mhenarth. Yr un Mr Thompson roddodd ei enw i Barc Thompson. Roedd yn dirfeddiannwr ac yn byw ym Mhreswylfa, y tŷ mawr ar Pen Hill. Ar y stablau ar gampws Ysgol Headlands fu'n safle i westy moethus Yr Headlands gwelir arfbais y teulu Clive (o India)

Yn goron ar y cyfan i mi beth bynnag oedd dod o hyd i fedd Joseff Parry ym mynwent Eglwys Awstin Sant ar y penrhyn a chael edrych i lawr a mwynhau'r olygfa hyfryd o Gaerdydd dros y bae.

Diolchodd Penri Williams i Keith am baratoi noson mor ddifyr ar ein cyfer. Mi fydd un arall y flwyddyn nesaf. Cofiwch ddod.




**ACIWBIGO**

Gwenan Evans

**ACUPUNCTURE**

Helpu i wella iechyd a lles yn holistaidd gydag aciwbigo traddodiadol

Cysylltwch i drafod a fedr aciwbigo eich helpu chi. Ymgynghoriad cychwynnol byr 15 munud ar gael am ddim dros y ffôn neu yn y clinig.

**Ffôn: 07816 878117**

**Ebost: aciwbigo@gwenanevans.com**

**www.gwenanevans.com**

Clinics ym Mhenarth a'r Mwmbwls

# Caerdydd yn Ci



**Band Melingriffith** *llun Penri Williams*



**Nia Tudur** *llun Penri Williams*

**Y Gadair** – Enillydd **Rhys Iorwerth** (Caerdydd)

**Y Fedal Ryddiaith** – Enillydd **Manon Rhys** (Caerdydd)

**Medal Gwyddoniaeth a Thechnoleg er Anrhydedd** – Enillydd **Neville Evans** (Caerdydd)

**Dysgwr y Flwyddyn** – Enillydd **Kay Holder** (Dinas Powys)

**Medal Syr T.H. Parry-Williams** – Enillydd **Gwilym Roberts** (Caerdydd)

**Unawd Cerdd Dant dros 21 oed** – Cyntaf **Nia Tudur** (Caerdydd)

**Côr Meibion rhwng 20 a 45 mewn nifer** – Cyntaf **A' ni 'ma 'to** (Caerdydd)

**Cyfansoddi monolog** – Cyntaf **Rhodri Trefor** (Caerdydd)

**Côr Cymysg rhwng 20 a 45 mewn nifer** – Cyntaf **Côrdydd**

**Côr yr Ŵyl – Côrdydd**

**Côr Ieuenctid dan 25 oed a dros 20 mewn nifer** – Cyntaf **Côr Aelwyd y Waun Ddyfal** (Caerdydd)



**Côrdydd** *llun Penri Williams*



**Côr y Mochyn Du** *llun Penri Williams*

# ipio'r Gwobrau



A' ni 'ma 'to *llun Penri Williams*

**Côr Pensiynwyr dros 60 oed a dros 20 mewn nifer – Cyntaf Côr y Mochyn Du** (Caerdydd)

**Unawd o oratorio neu offeren 19-25 oed** – Cyntaf **Ellen Williams** (Y Bontfaen)

**Bandiau Pres Dosbarth 4 1** – Cyntaf **Band Melingriffith 2** (Caerdydd)

Yn ei raglen ymadawol a gynhaliwyd ar faes yr Eisteeddfod, dywedodd Gwilym Owen ***"Dwi ddim wedi cael fy llwyr berswadio gan yr athroniaeth fawr fod dyfodol Cymru a'r Gymru Gymraeg yn arbennig yn y de ddwyrain. Dwi'n credu bod dyfodol y Gymru Gymraeg yn ei hardaloedd cynhenid.*** Hen hen ddadl yw hon; ond o edrych ar gyfraniad a llwyddiannau ysgubol Caerdydd yn Eisteddfod Wrecsam tybed a yw'r ddadl hon yn dal dŵr mwyach?



**Côr Aelwyd y Waun Ddyfal** *llun Penri Williams*

# Kay Holder yw Dysgwr y Flwyddyn

Llongyfarchiadau i Kay am ennill cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn. Meddai Elfed Roberts, Prif Weithredwr yr Eisteddfod, "Roedd safon y cystadlu eleni'n uchel iawn, ac mae'n amlwg bod Kay wedi gwneud argraff arbennig ar y beirniaid i ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn eleni." Mae Kay yn wreiddiol o Benarth, ac mae'n parhau i fyw ym Mro Morgannwg yn Ninas Powys. A hithau'n meddu ar ddoniau ieithyddol, mae'n gweithio fel tiwtor preifat Sbaeneg, Ffrangeg ac Almaeneg. Dechreuodd ddysgu Cymraeg yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008, ac mae'n amlwg i'r Eisteddfod gael cryn ddylanwad arni hi, gan ei bod yn rhan o'r trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod ym Mro Morgannwg y flwyddyn nesaf.



*llun Penri Williams*

# Ysgol Gymraeg Nant Caerau

Bu hon yn flwyddyn hanesyddol iawn, sef ein blwyddyn gyntaf fel ysgol. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r plant, i'r rhieni, i'r staff a'r Llywodraethwyr am eu diwydrwydd a'u cefnogaeth

### Eco Bwyllgor

Aelodau ein Heco Bwyllgor yw Thomas Gallimore, Alex Loi, Joshua Sheppard, Dylan Sterio, Georgia Hancock, Nicôl Meredith, Aaron Elis, Max Thompson ac Ieuan Sweetman. Maent wedi creu côd eco yr ysgol; diolch i Mrs Hughes Jones am ei sefydlu.

### Ffair Haf

Cynhaliwyd y ffair yn y neuadd ac ar dir yr ysgol. Braf iawn oedd gweld y gefnogaeth frwd. Roedd yn achlysur llwyddiannus iawn a llwyddwyd i godi dros £1,000.

### Ymwelwyr

Bu'r actor a'r awdur adnabyddus Meilyr Siôn yn darllen ei lyfrau i blant blwyddyn 2 a 3. At hynny, daeth Mr Adam Coleman o Fenter Eglwysi Caerdydd i'r ysgol i gynnal gwasanaeth arbennig ar Weddi'r Arglwydd Thema ei wasanaeth oedd Gweddi'r Arglwydd. Roedd wedi ei blesio'n arw gan blant blwyddyn 1, 2 a 3 a oedd yn gallu canu'r Weddi ac am eu hymddygiad ardderchog. Daeth y cwmni Theatr Bypedau Cymru i'r ysgol i gyflwyno ei sioe bypedau 'Cwilt Siôn'.

### 'Smiley Talk'

Bu'r ysgol yn ffodus o gael ei dewis i gymryd rhan mewn prosiect 'Smiley Talk', cynllun sydd yn galluogi i blant blwyddyn 3 gyfathrebu â phlant o ysgolion eraill ar draws y byd; eisoes maent mewn cysylltiad â phlant o'r Eidal a Sbaen.


## "Mwynder Maldwyn ar Blât!"

Am gig eidion blasus, brau o'n fferm deuluol ym mryniau mwyn Sir Drefaldwyn wedi ei ddosbarthu i'ch cartref yn ffres ac yn barod erbyn y Nadolig, archebwch gig coch erbyn diwedd mis Hydref drwy:

e-bostio: **cigcoch@hotmail.com**

ffônio: **07525 495061**

Mae modd prynu toriadau unigol neu focs 5 neu 10 cilo yn cynnwys: **stêcs, cig rhostio, cig stiwio, byrgars, briwgig** a mwy! Mae bocs 5 cilo yn £45 tra bod bocs 10 cilo yn £85 (tipyn rhatach na'r archfarchnadoedd ac wedi ei ddosbarthu i chi'n uniongyrchol!).

cig coch

**Arwyn Davies & Gwenllian Lansdown Davies**
**Coedtalog, Llanerfyl, Sir Drefaldwyn, SY21 0EN**


### Parcio

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broblem parcio cafwyd cystadleuaeth i blant Blwyddyn 3 ddylunio. Yr enillydd oedd Nicôl Meredith, gyda Joshua Sheppard yn 2il a Dylan Sterio yn 3ydd.

### Tafwyl

Yn flynyddol mae Menter Caerdydd yn trefnu gŵyl ar gyfer ysgolion a mudiadau Cymreig y ddinas. Dyma'r tro cyntaf i ni dderbyn gwahoddiad ac roedd y plant wrth eu bodd yn perfformio detholiad o ganeuon ar y llwyfan yng nghefn y Mochyn Du.

### Newyddion staff

Llongyfarchiadau i Mrs Cribb ar enedigaeth ei mab Llywelyn. Yn y cyfamser mae Miss Edmunds wedi derbyn lle mewn coleg hyfforddi i'w hyfforddi fel athrawes; mae Miss Roberts wedi derbyn swydd actio gyda Theatr Tir na Nog. Bydd Mrs Green yn dychwelyd i Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac mae Miss Nicholas yn ein gadael yr Haf yma. Bydd Miss Fulgoni (Dosbarth Derbyn), Miss Rawlins (Bl.1) a Miss Rees (Bl. 1/2) yn dechrau fel cynorthwywyr ym mis Medi. Pob lwc i chi gyd.

# Ysgol Pwll Coch

Dymunwn yn dda iawn i blant Blwyddyn 6 wrth ddechrau yn Ysgol Plasmawr. Cawson nhw dymor olaf prysur iawn yn Ysgol Pwll Coch gyda'u perfformiad o 'Grease' yn uchafbwynt i'r tymor. I ddathlu aethon nhw a Blwyddyn 5 am farbeciw a gemau yn Porthkerry.

### CPC – Cogyddion Pwll Coch

Ydych chi'n hoffi'n bwyd blasus ond does dim llyfr coginio da gyda chi? Wel, dyma'r ateb i'ch problemau. Mae criw o blant Pwll Coch wedi creu llyfr coginio yn llawn ryseitiau amrywiol. Enw'r grŵp yw CPC sef Cogyddion Pwll Coch. Plant a rhieni'r ysgol sydd wedi cyfrannu at y llyfr. Bydd y llyfr ar werth yn yr ysgol am £3.00 yn unig. Cysylltwch â'r ysgol os hoffech chi brynu llyfr.

### Recordio 'Songs of Praise'

Bu côr yr ysgol yn recordio ar gyfer rhaglen deledu i ddathlu 50 mlwyddiant 'Songs of Praise' a fydd yn cael ei ddarlledu ym mis Medi. Da iawn chi!

### Garddwyr Pwll Coch

Enillodd yr ysgol gategori ysgolion yng nghystadleuaeth Caerdydd yn ei flodau. Llongyfarchiadau i blant Blwyddyn 5 a weithiodd yn ddiwyd ar yr ardd. Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Oliver am ennill cystadleuaeth cynllunio gwely blodau. Aeth ef a'i ffrindiau o flwyddyn 4 i blannu'r gwely blodau o flaen y tŷ gwydr ym Mharc y Rhath.

### Pêl-droed

Aeth 8 o fechgyn i dreialon Pêl-droed Caerdydd. Fe wnaeth pob un ohonynt yn wych. Llongyfarchiadau i Thomas Hayes, Tomi Owen a Llew Morgan am gael eu dewis i'r sgwad ddatblygol yn nhreialon pêl-droed Caerdydd. Da iawn hefyd i Deio Hughes a Daniel Rees sydd wedi cyrraedd 3ydd rownd y treialon. Pob lwc fechgyn.

### Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Mrs Katie Morgan ar enedigaeth Sam ac i Miss Gwawr Griffiths ar enedigaeth ei merch ferch. Llongyfarchiadau i Miss Susan Evans a Justin ac i Miss Eiry Davies a Gareth ar eu priodas yn ystod y tymor.

# Mentro ar Fentora

Mae Eirlys Davies ac Ann Simons wedi bod yn rhan o Raglen Fentora Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro ers blwyddyn ac maen nhw wedi gwneud ffrindiau mawr erbyn hyn. Mae Eirlys yn fentor i Ann sy'n dysgu Cymraeg ar lefel Ganolradd yn y Barri. Aeth Gwenllian Willis i gyfarfod â nhw yn y *Plymouth Arms* cyn iddyn nhw fynd i fwynhau a siarad rhagor o Gymraeg yn Sain Ffagan.

### Pa mor hir dych chi wedi bod yn fentor i Ann?

Cwrddon ni yn y noson fentora mis Ebrill diwethaf a dyn ni wedi bod yn cwrdd o leiaf unwaith y mis ers hynny.

### Beth ydych chi'n dueddol o wneud pan dych chi'n cwrdd?

Mae'n helpu achos mae'r ddwy ohonon ni'n mwynhau gwneud yr un pethau. Rydyn ni'n mynd ar deithiau cerdded, i gael coffi a sgwrs, aethon ni i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd i weld arddangosfa'r arlunwyr enwog, dw i wedi bod draw yn nhŷ Ann i gael bwyd a dyn ni'n mynd i Sain Ffagan nawr.

### Ann, ydych chi'n meddwl bod mentora yn helpu i wella'ch Cymraeg? Sut?

Yn bendant. Mae Eirlys yn fy annog i siarad Cymraeg, mae hi'n siarad yn glir iawn, ac mae wedi gwneud i mi deimlo'n benderfynol o ddysgu Cymraeg yn rhugl. Mae Eirlys a fi yn ffrindiau mawr erbyn hyn. Dw i methu aros i glywed am ei holl hanes dros y mis diwethaf. Dw i'n teimlo'n lwcus iawn fy mod i wedi cwrdd ag Ann. Dyn ni'n hoffi'r un pethau a dyn ni'r un oedran felly mae gyda ni lawer o bethau yn gyffredin. Mae'n grêt!

### Eirlys, ydych chi'n mwynhau mentora Ann?

Dw i wrth fy modd. Mae'n bleser gallu cyflwyno Ann i'r byd Cymraeg a'i dysgu am hanes Cymru ac am draddodiadau Cymreig. Dw i hefyd yn trio annog Ann i ymuno â Chôr yr Eisteddfod yn y Barri a Merched y Wawr.

### Eirlys, ydych chi'n meddwl ei fod e'n bwysig i helpu dysgwyr gyda'u Cymraeg?

Ydw, yn bendant. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn rhan o'r byd Cymraeg er mwyn dysgu'r iaith yn hollol rugl. Mae hefyd yn bwysig i gael cyswllt un i un gyda dysgwyr i ddechrau er mwyn hybu eu hyder a rhoi'r cyfle iddynt ymarfer.

### Pryd dych chi'n cwrdd?

Dyn ni'n cwrdd pan fod e'n ein siwtio ni. Bob tair wythnos fel arfer.

### Ydych chi'n mwynhau?

Wrth ein boddau. Mae'n neis iawn i gwrdd â ffrind newydd a gwneud gweithgareddau llawn hwyl gyda'n gilydd.

Os hoffech chi helpu dysgwr trwy fod yn fentor iddynt. Cysylltwch â Gwenllian Willis ar 029 20 879 318 neu e-bostiwch willisg1@caerdydd.ac.uk




## STEFFAN YN CAMU YMLAEN AT YSGOLORIAETH URDD GOBAITH CYMRU BRYN TERFEL

Mae'r canwr dawnus, Steffan Jones, sy'n wreiddiol o Gaerdydd a bellach yn byw yn Llundain yn un o wyth o enillwyr Eisteddfod yr Urdd, Abertawe a'r Fro sy'n prysur baratoi i gystadlu am un o brif wobrau celfyddydol ieuenctid Cymru sef Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel. Bydd yr wyth cystadleuydd disglair yn ymgiprys am wobr hael o £4,000.

Enillodd Steffan, 24 yr Unawd i'r rhai rhwng 19 a 25 oed a chyn y cyngerdd - a fydd yn penderfynu pwy fydd yn hawlio'r Ysgoloriaeth - a gynhelir yn Stiwdio'r Ddraig, Pencoed ger Pen-y-bont ar Ogwr nos Sul 25ain o Fedi am 18.15 bydd cyfle i Steffan gael gwers gan un o feistri'r byd cerdd yng Nghymru.

Mae Steffan yn gweithio fel canwr proffesiynol yn ogystal â rhan amser gyda'r COI (Central Office of Information) yn gweithio ym myd cyfieithu.

"Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at y noson. Ar ôl bod yn cystadlu ers rhyw ddeunaw mlynedd, dyma ffordd wych i orffen fy nghyfnod gyda'r Urdd. Bydd yr Ysgoloriaeth yn brofiad pwysig arall a gobeithio yn garreg filltir bwysig yn fy ngyrfa," medd Steffan sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol y Wern ac Ysgol Glan Taf. "O ran fy nyheadau, rwy'n gobeithio cael dychwelyd i'r Coleg Cerdd Brenhinol er mwyn cwpla f'ôl radd a mynd i'r ysgol opera. Ar ôl hynny, hoffwn ddilyn gyrfa fel cantor opera proffesiynol. Breuddwydio am berfformio Figaro neu Papageno yng Nghanolfan Mileniwm Cymru!"

Yn ogystal â'r wobr ariannol, mae'r Ysgoloriaeth hefyd yn cyplysu enw'r enillydd gydag un o sêr amlycaf y byd perfformio heddiw, sef Bryn Terfel. Mae'r canwr o Bantglas yn credu fod y gystadleuaeth eleni eto yn un sy'n sicr o ennyn cryn ddiddordeb.

Meddai Bryn Terfel, "Unwaith eto, mae'r rhai sy'n cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni yn griw talentog dros ben ac yn lysgenhadon gwych dros Gymru. Gyda'r safon mor uchel, mae'r Cyngerdd yn sicr o fod yn noson wych o adloniant cerddorol a gweledol ac rwy'n dymuno'n dda iawn i'r wyth cystadleuydd."

Yr wyth fydd yn cystadlu fydd:

- Ellen Angharad Williams o'r Bontfaen. Enillydd yr Unawd Alaw Werin 19 – 25
- Elen Angharad Morgan o Landysul. Enillydd y Cyflwyniad Dramatig 19 – 25
- Rhian Mair Davies o Bencader. Enillydd y Llefaru Unigol 19 – 25
- Glain Dafydd o Fangor. Enillydd Unawd Offerynnol 19 – 25
- Huw Ynyr Evans o Rydymain. Enillydd Unawd Cerdd Dant 19 – 25
- Anna Pardanjac o Fae Colwyn. Enillydd Dawns Unigol i Ferched Bl 10 a dan 25
- Steffan Jones o Gaerdydd. Enillydd Unawd 19 – 25
- Sian Crisp o Gaernarfon. Enillydd Unawd o Sioe Gerdd 19 - 25

Mae tocynnau ar gyfer y Cyngerdd yr Ysgoloriaeth yn Stiwdio'r Ddraig, Pencoed ger Pen-y-bont ar Ogwr, nos Sul 25ain o Fedi yn £10 ac ar werth ar wefan yr Eisteddfod – urdd.org/eisteddfod neu drwy ffonio 0845 257 1639.

# Yr Adar Gleision yn Hedfan?

Bu'r ddinas yn edrych ymlaen yn eiddgar at dymor newydd wedi llwyddo i ddenu rheolwr newydd a naw chwaraewr addawol dros ben. Cafwyd gemau 'cyfeillgar' diddorol a chystadleuol yn erbyn Parma a Celtic pan estynnwyd croeso yn ôl i'r ddinas i Ledley, Mattews a Loovens. Ar y 6ed o Awst ymlwybrodd yr Adar a miloedd o gefnogwyr i Lundain i brofi'r pleser amheus o wynebu West Ham yn eu gêm gyntaf. Yn optimistaidd, roedd pawb yn gobeithio efallai cael gêm gyfartal, ond yn wir yn y funud olaf rhwydodd Miller ei gôl gyntaf i'r clwb, a mawr fu'r gorfoledd. Caerdydd 1 - West Ham 0.

Rhoddwyd croeso tywysogaidd i'r chwaraewyr newydd yn y gêm gyntaf gartref yn erbyn Bristol City y Sadwrn canlynol, ac yn arbennig i'r dewin bach Earnshaw yn dychwelyd i'w gartref naturiol. Caerdydd 3 - Bristol City 1 a Bristol yn hynod lwcus i fod mor agos yn y diwedd.

Ond daeth tro ar fyd gydag ymweliad y newydd-ddyfodiaid i'r Adran - Brighton & Hove Albion. Wedi i Gaerdydd gychwyn yn addawol, gwelwyd bylchau'n ymddangos yn amddiffynfa'r Gleision a chollwyd rheolaeth yng nghanol y cae. Brighton 3 - Caerdydd 1.

Mae sawl gwendid yn amlwg erbyn hyn ac mae rhaid gofyn cwestiynau am y garfan. A fydd Kevin McNaughton yn curo ei record o fethu naw tro i groesi'r bêl yn effeithiol fel y gwnaeth yn erbyn Brighton? Ydy Kenny Miller a Robert Earnshaw yn mynd i ffurfio partneriaeth effeithiol fel ymosodwyr? Ai Gerard neu Hudson a fydd yn ennill y wobr am amddiffynnwr arafaf y tîm? Ond er gwaetha'r pryderon rhaid dweud bod rhai o'r chwaraewyr newydd wedi cael dechrau da. Mae Joe Mason yn edrych yn addawol ac nid yw gyrrwr yn rali 24 awr Le Mans yn gyrru'r un nifer o filltiroedd ag y mae Don Cowie yn rhedeg mewn gem. Mae Conway hefyd wedi cyfrannu at newid dull chwarae City; dull sydd yn cynnig tempo uwch na dyddiau olaf Dave Jones.

Mae'r canlyniadau yn y Bencampwriaeth hyd yn hyn yn awgrymu na fydd unrhyw un yn efelychu QPR llynedd a chymryd mantais o wendid cyffredinol yr adran. Yn erbyn Portsmouth City a oedd yn chwarae'n fentrus ond yn dangos diffyg hyder pan roedd Pompey yn agos at ein gôl. Rhaid i Marshall a'i gyd-amddiffynwyr fod yn llawer mwy awdurdodol os yw City am fod o ddifri am wthio am ddyrchafiad eto.

Mae'n gynnar iawn yn y tymor ac mae'r ffin rhwng colli ac ennill yn un denau iawn iawn. Hyderwn na fydd bwlch rhy fawr rhwng yr Adar Gleision ag Elyrch Abertawe ar ddiwedd y tymor!! CROESO I DYMOR NEWYDD!

*John Albert a Gwilym Boore*

# CWRT INSOLE CAM CYNTAF LLWYDDIANNUS

Rhyw fis yn ôl ffurfiwyd Ymddiriedolaeth Cwrt Insole gyda'r bwriad o drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygu a rhedeg Cwrt Insole o ddwylo Cyngor y Ddinas i'r Ymddiriedolaeth newydd. Ddiwedd mis Gorffennaf cafwyd y newyddion da bod y cam cyntaf yn y broses wedi bod yn llwyddiannus. Yr Ymddiriedolwyr ar hyn o bryd yw Syr Norman Lloyd-Edwards, Yvonne Apsitis, Elaine Davey, David Hamley a Dr Geoff Morgan – pobl sy'n cynrychioli amrywiol sectorau o'r gymuned, ond mae lle i unrhyw un sy'n awyddus i hybu Cymreictod o fewn y sefydliad. Os oes diddordeb gyda chi, mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd Cyfeillion Cwrt Insole, John Prior-Morris. (Gweler isod.)

Nod y Cyfeillion a'r Ymddiriedolaeth yw sicrhau dyfodol ffyniannus i'r plasty Fictoraidd hwn a'i erddi ysblennydd fel rhan o fywyd cymunedol dinasyddion Llandaf a Chaerdydd yn gyffredinol. Bydd nifer yr ystafelloedd yn cynyddu o 4 i 14, a bydd modd eu hurio ar gyfer achlysuron a gweithdai yn ogystal â dosbarthiadau addysg oedolion. Bydd y 'teithiau treftadaeth' presennol yn parhau (gellir trefnu teithiau Cymraeg), a bydd cyfleusterau paned newydd yn cael eu codi yn y gerddi. Er mwyn gwneud hyn, rhaid cael arian sylweddol, ac mae trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y lle i'r Ymddiriedolaeth yn rhan o'r broses o gynnig am grantiau o wahanol ffynonellau.

Codwyd Cwrt Insole yn 1855 gan berchennog pwll glo Y Cymer, James Harvey Insole, ac mae'n cynnwys llawer o bethau sy'n adlewyrchu cyfoeth y teulu a'i statws yn y gymuned. Enghraifft dda yw'r *frieze* gan Fred Weeks, cynorthwy-ydd William Burgess, sy llawn cystal ag unrhywbeth sydd i'w weld yng Nghastell Caerdydd. O ben y tŵr ceir golygfa wych mor bell â Môr Hafren. Yn 1939 fe'i prynwyd gan yr Awdurdod Lleol trwy orchymyn pwrcasu gorfodol er mwyn adeiladu ffordd newydd, sef Rhodfa'r Gorllewin, a holltodd y stâd yn ei hanner. Am fwy o wybodaeth am y lle hynod ddiddorol hwn, ac am yr hyn sy ar y gweill, ewch i **www.insolecourttrust.co.uk**.


## TŶ AR WERTH

Tŷ pen-teras mewn cul-de-sac yn Littleton Street, Riverside.
Dim ond 20 munud o gerdded i ganol y dref.


Dwy ystafell wely, lolfa, cegin efo ardal fwyta, ystafell folchi, gardd fechan.

Delfrydol fel pryniant tŷ cyntaf.

Pris: Oddeutu £95,000

**Am fwy o fanylion, cysylltwch a Siwan Haf 07811 338 286 neu siwanhaf@hotmail.co.uk**

# CROESAIR



**Ar Draws**

3. Cred y criw sy'n troelli ar y llain (9)
7. 'Mae'n ________ __ gwagle yn ddigoll
   Mae oll yn oll, a'i allu'n un.' (E.J) (4,1)
8. Aderyn brith Arfon druan (9)
9. Ac yn ail mae alltud Chwilog yn bwrw allan (5)
10. Maedda Coron yn rhacs wedi'r cam cyntaf (6)
13. Crefft y 99 yn creu darn o ddodrefn (8)
15. Gradd y lliw haul efallai sydd gan Meryl a Ned ar y cyd (8)
17. '__ _________ hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu.' (Salmau) (1,5)
20. Cael gwely a digon (5)
22. Miri Guto a'r 500 yn cefnogi'r pencampwyr (3,6)
23. Plygu i weld yr wy yn y gro (5)
24. Rhoi d'enw i lawr gyda'r côr yn y festri (9)

**I Lawr**

1. Y cythraul yn llyfrgell y Llan (4)
2. Person diwylliadol a thalcen anarferol ! (2,4-3)
3. Gwamalu ynghylch bol y ci (6)
4. Alun bach yn gwisgo cnu dwbl i seinio'r clychau (4,4)
5. 'Ti wrandewi'n nydd y _________
   Lef pechadur wrth dy ddôr' (J.J.W) (5)
6. 'Ehedydd y mynydd a gwylan y môr
   Sy'n derbyn eu cinio o ddwylo ____ _____' (G.M.R) (2,3)
11. Pren uchel dyhead yn y goedwig (4,5)
12. 'Fy mab, pwy pia'r _______
    A'r mân blu ar wymon blêr'. (C.W.J) (4)
13. 'Dyma frawd a anwyd inni
    Erbyn cledi a phob _______' (AN) (4)
14. Ces gymod rywsut a'r wraig drws nesaf (8)
16. Annog fel y Gogleddwr ar ddiwedd Medi (6)
18. Byw a marw (5)
19. Yr ysgrifennwr yn dechrau amau wrth dorri'r unig reol (5)
21. Gwasgu'r afradlon yn ffrwd (4)

# Newyddion o'r Eglwysi

## Capel Ebenezer

**ODID – O dŷ i dŷ**

Dechreuodd cylch Odid gyfarfod ddechrau'r haf gan edrych yn fanwl ar y Beibl ac i weddïo. Rydym yn dilyn cyfres o astudiaethau gan Tim Keller - Gospel in Life, Grace Changes Everything. Mae tri chyfarfod wedi bod eisoes a bendith mawr wedi'i brofi ym mhob un.

**Penblwydd Hapus**

Mae nifer o deulu Ebeneser yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod yr haf. Cofiwch gyfrif eich blynyddoedd bob yn ugain yn yr hen ffordd Gymreig. Wedyn rydych bob amser yn eich ugeiniau. Ym mis Gorffennaf dathlodd Lis Decaro a Lyn Jones eu deg a deugain. Roedd Mefus Eirwyn-Evans yn ddeg a phedwar ugain. Denzil Davies yn bedwar ugain ac yn ystod Awst roedd Mair Thomas hithau yn bedwar ugain. Gobeithio i bawb gael penblwydd hapus iawn a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

**Clirio Gerddi**

Daeth criw da at ei gilydd ddechrau'r haf ar nos Fawrth braf, ie braf choeliwch chi byth, i glirio sbwriel o gerddi o gwmpas y capel. Prin ddwy awr ar ôl dechrau roedd y gwaith wedi'i gwblhau. Diolch i bawb ddaeth i helpu.

**Te pnawn**

Ar 9 Gorffennaf cynhaliwyd te pnawn yng nghartref Cedric a Brenda Jones er budd ein helusen am eleni, Tŷ Hafan. Daeth criw da ynghyd a chafwyd hwyl yn sgwrsio a hamddena. Codwyd £470 ar gyfer yr elusen. .

**Cyflwyno siec elusen**

Ar fore Sul, 31 Gorffennaf death Lynn Hull atom o Dŷ Hafan i dderbyn siec, yn dilyn blwyddyn o weithgarwch. Er bod arian un gweithgarwch eto heb ei gasglu, y cyfanswm y siec a gyflwynwyd oedd £7500. Bydd arian nawdd o dyfu blodau haul yn cael ei gasglu ei anfon ddiwedd mis Medi. Braint fawr oedd cael cyflwyno'r arian hwn i elusen sydd wedi cyffwrdd Ein helusen ar gyfer 2011/2012 fydd Hosbis George Thomas.

## Eglwys Y Crwys

**Priodasau**

Cafwyd achlysuron arbennig o hapus yn Eglwys y Crwys dros gyfnod o wythnos yn niwedd Gorffennaf a dechrau Awst pryd y gweinyddwyd mewn dwy briodas gan ein Gweinidog y Parchedig Glyn Tudwal Jones. Ar ddydd Sadwrn Gorffennaf y 30ain priodwyd Angharad Kemp a Kevin Evans. Ddydd Sadwrn yr wythnos ganlynol tro Siân Couch a Ian Golden oedd cael eu huno mewn glân briodas. Roedd y ddau ddigwyddiad yn achlysuron gwerthfawr iawn yng nghalendr yr Eglwys, ac fe ddymuna'r aelodau yn dda iddynt yn eu bywyd priodasol.

**Y Gymdeithas**

Erbyn hyn mae rhaglen y Gymdeithas Ddiwylliannol ar y gweill ac fe'i gweinyddir eleni gan Eleri Bines fel Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd fydd Peter Rowlands. Catrin Rowlands yn Ysgrifenyddes ac Arthur Evans yn Drysorydd. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar Nos Wener Medi'r 30ain pryd y disgwylir y Cyn-archdderwydd John Gwilym Jones i roi anerchiad ar "Gynllunio Caneuon Ffydd."

**Y Gymdeithas Ddrama**

Mae rhaglen y Gymdeithas Ddrama ar gyfer dechrau hydref yn mynd rhagddi erbyn hyn, ar Nos Fercher Medi'r 21ain, Nos Iau Medi'r 22ain a Nos Wener Medi'r 23ain am 7.30 o'r gloch cyflwynir dwy ddrama fer yn Theatr y Crwys, Agoriad yn y Drws" gan Marged Pritchard a "Y Garddwest Gosforth", cyfieithiad Emyr Edwards o waith Alan Ayckbourn. Cynhyrchir y naill gan Robin Owen a'r llall gan Betsan Evans. Bydd perfformiad Nos Iau yn mynd tuag at gefnogi Pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol 2012.

**Y Gorlan**

Mae tymor y Gorlan yn ôl ei harfer yn cychwyn ym Mis Hydref a'r un fydd y drefn eleni gyda'r cyfarfod cyntaf yn oedfa gymun o dan arweiniad y Parchedig Lona Roberts ar brynhawn Dydd Mercher y 5ed o'r mis. Pythefnos yn ddiweddarach caiff yr aelodau gyfle i ymweld ag ychydig o atyniadau Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

# Eglwys Dewi Sant

Er nad oedd pawb ar gael yn ystod gwyliau'r Haf, cynhaliwyd ambell i ddigwyddiad llwyddiannus.

**Te Mefus a Pharti Gardd**

Daeth llawer o'r aelodau a'u ffrindiau i'r achlysur blynyddol hwn yng nghartref Catherine a Stuart Owen Jones pan godwyd dros £650 tuag at y gwaith sydd angen ei wneud ar adeilad yr eglwys.

**Bore Coffi**

Cynhaliwyd Bore Coffi yng nghartref Chris a John Livsey ddiwedd mis Awst. 'Roedd y tywydd yn braf a mwynheuodd pawb y cyfle i gymdeithasu. Codwyd dros £200.

**Bws a Phas a Phererindod**

Rhwng Medi 19 a 23 bydd Margaret a Cyril Hughes yn teithio o gwmpas chwe chadeirlan Cymru gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus - a'u cardiau teithio rhad! Byddan nhw'n cychwyn ben bore Llun o Eglwys Gadeiriol Llandaf ac yn ymweld â Chasnewydd, Aberhonddu, Tŷddewi, Bangor a Llanelwy yn eu tro. Dyma syniad gwreiddiol iawn ar gyfer codi arian. Pob lwc iddynt ar eu taith.

Llongyfarchiadau i Gerallt Hughes a oedd yn fuddugol yn Eisteddfod Wrecsam am ysgrifennu erthygl yn ymwneud â phwnc gwyddonol. Dewisodd drafod datblygiadau cyfoes mewn robotiaid. Daw Gerallt o Langefni, Ynys Môn.

# Minny Street

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Cerys Haf Ffion, merch i Bethan a Parri Rowlands, chwaer fach i Amy ac wyres arall i Aerona Warrington. Dymuniadau da i'r teulu.

**Aelod newydd**

Hyfrydwch oedd derbyn un o ieuenctid yr eglwys, Huw Blainey, yn gyflawn aelod mewn oedfa hwyrol ganol mis Gorffennaf.

**Gwaith Elusennol**

Daeth blwyddyn elusennol yr eglwys i ben dros yr haf. I gau pen y mwdwl ar y gweithgarwch i gefnogi elusen Yr Ystafell Fyw cafwyd cyfle i fwynhau egwyl gerddorol a lluniaeth yng nghartref Mrs Eilonwy Jones yn Rhiwbeina ar ail Sadwrn mis Gorffennaf. Yn ystod oedfa hwyrol 17 Gorffennaf cyflwynwyd siec ar ran yr eglwys i Wynford Ellis Owen, Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Wrth dderbyn y siec cyfeiriodd Wynford at rai o'i brofiadau personol a'i freuddwyd o weithredu a gwireddu egwyddor "trwy roi'r dyn at ei gilydd, gellir hefyd roi'r byd yn ei le". Da deall y bydd y ganolfan gofal dydd newydd ar Ffordd Richmond yn agor yn swyddogol ar 8 Medi 2011. Elusen yr eglwys ar gyfer 2011/12 fydd Ambiwlans Awyr Cymru. Mae aelodau'r eglwys yn parhau i gynorthwyo gyda pharatoi te i'r digartref yn y Tabernacl, Yr Âis, ar brynhawn Sul ynghyd â chasglu nwyddau tuag at Fanc Bwyd Caerdydd yn fisol.

**Cydaddoli yn ystod Gorffennaf ac Awst**

Unwaith y flwyddyn, ar Sul y Cyfundeb (17 Gorffennaf eleni), bydd eglwysi Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yn dod at ei gilydd i ddathlu ac addoli ein Harglwydd. 'Roedd Neuadd Ysgol Bro Morgannwg yn llawn ar gyfer oedfa fendithiol a llawn her ar y thema Cymod. Hyfryd hefyd fu'r cyfle blynyddol i gydaddoli a chydgymdeithasu yng nghwmni aelodau eglwysi Cymraeg y brifddinas yn ystod mis Awst.

Am holl newyddion diweddaraf Minny Street ewch i www.minnystreet.org

# Tabernacl, Caerdydd

**Genedigaeth**

Rhannwn lawenydd Robin ac Eleri Gwyndaf wrth i'w merch Nia a'i gŵr Eifion groesawu eu trydydd plentyn, Idris Pari.

**Eisteddfod Genedlaethol**

Cafodd dwy o aelodau'r eglwys eu hurddo i'r Orsedd eleni. Dymunwn yn dda i Eirlys Pritchard Jones ac i Ann Beynon ar dderbyn y gydnabyddiaeth hon o'u cyfraniad i amrywiol agweddau o fywyd y genedl.

**Garddio**

Llongyfarchiadau i Marged Jones am dderbyn ei gradd yng Ngholeg Cerdd Brenhinol, Llundain, ac i Trystan Coe am raddio ym Mhrifysgol Abertawe.

Cyd-ddathlwn hefyd gydag Owain Williams ar ennill ei radd M.Phil. o Rydychen. Roedd yn hyfryd deall fod Sion Lewis, ŵyr Megan a Wyn Morris, wedi graddio gyda M.Sc.(Econ) yn Aberystwyth.

**Ysgol Sul**

Daeth tymor gweithgareddau'r Ysgol Sul i ben gyda'r teuluoedd yn rhannu picnic yn ardal y Bae ganol mis Gorffennaf. Diolch i Gwenllian Evans a Nia McVeigh am ddwy flynedd o weithredu fel arolygwyr. Ym mis Medi bydd Rhian Williams a Mai Giles yn cymryd yr awenau.

**Bore Coffi**

Diolch i Calan a Malcolm McGreevy am eu croeso i'w cartref yn Llandaf ac i Gill a John Thomas i'w haelwyd nhw yn Ninas Powys.

**Barbiciw ac oedfa'r hwyr**

Diolch i'r criw a roddodd drefn ar y barbiciw a gynhaliwyd ddechrau Gorffennaf. Daeth nifer dda ynghyd, a diolch i bawb a gytunodd i ddarllen a gweddïo.

**Te Mefus**

Daeth nifer dda o bobl i fwynhau te mefus ar aelwyd Euros Rhys a Siân Rhiannon yn y Rhŵs. Aeth yr elw at Bwyllgor Apêl Leol Eisteddfod 2012 a Phwyllgor Organ y Tabernacl.

**Datganiad Organ**

Cynhaliwyd yr ail Ddatganiad yn y gyfres ddydd Sadwrn, Gorffennaf 9fed a'r organydd gwadd oedd Robert Court. Roedd gwerthfawrogiad a mwynhad y gynulleidfa'n amlwg. Cynhelir y Datganiad nesaf Sadwrn, Hydref 8fed am 1.00 p.m. a'r unawdydd fydd Dr. Martin Neary – cyn-organydd Abaty Westminster, Llundain.

# Calendr y Dinesydd • Medi-Tachwedd 2011

**Sadwrn, 10 Medi**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Amanda Griffiths am 11.00am am ei hargraffiadau o'r Wladfa ym Mhatagonia. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 15 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Sgwrs am 'Beibl.net' gan Arfon Jones, yng nghapel Minny Street am 7.30pm.

**Sadwrn, 17 Medi**
Gêm Gartref C.R. Cwins Caerdydd (Adran 4) yn erbyn Blaina ar Faes Diamond, Yr Eglwys Newydd. C.G. 2.30pm.

**Llun, 19 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwibdaith i Fro Morgannwg. Yn gadael y Deri am 2.00pm.

**Llun, 26 Medi**
"Ochneidio yr Holl Greadigaeth" (Rhufeiniaid 8:22) – Her Foesegol Cynaliadwyedd.' Sgwrs gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, AC (Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru), yng nghapel Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Mynediad £5.

**Gwener, 30 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Y Prif Lenor Manon Rhys yn trafod Neb Ond Ni, yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Dyma gyfarfod agoriadol y Cylch. Croeso cynnes i aelodau newydd.

**Sadwrn, 1 Hydref**
Gêm Gartref C.R. Cwins Caerdydd (Adran 4) yn erbyn Ffynnon Daf ar Faes Diamond, Yr Eglwys Newydd. C.G. 2.30pm.

**Iau, 6 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm yng Nghlwb Golff Radyr. Gwesteiwraig: Beti George. Croeso i bawb. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (029-2069-4667 neu rhiannongregory@talktalk.net).

**Iau, 6 Hydref**
Clwb Gwawr 'Llygaid y Dydd'. Noson o gân a sgwrs yng nghwmni Gwyneth Glyn, yng Nghlwb Bowls Pen-hill am 8.00pm. Croeso cynnes i bawb. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch drwy dudalen Facebook ClwbGwawrCaerdydd neu drwy e-bost (clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com).

**Gwener, 7 Hydref**
Cylch Cadwgan. Hywel Gwynfryn yn siarad ar y testun 'Hugh Griffith' yn y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Sadwrn, 8 Hydref**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr E. Wyn James am 11.00am ar y testun ' "Pa le, pa fodd ...?" Cofio Roger Edwards'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 8 Hydref**
Cyngerdd organ ganol-dydd gan Martin Neary yng nghapel Tabernacl, Yr Ais, i ddathlu atgyweirio'r organ yno.

**Gwener, 14 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. Noson Arwisgo Llywydd y Cymrodorion am 2011–12, sef Havard Gregory, yn cynnwys sgwrs gan y Llywydd newydd ar y testun 'Hwn-a-hwn, hyn-a'r-llall, fel-a'r-fel'. Yn festri capel Minny Street am 7.30pm. Croeso i aelodau newydd.

**Sadwrn, 15 Hydref**
Gêm Gartref C.R. Cwins Caerdydd (Adran 4) yn erbyn Tredegar Newydd ar Faes Diamond, Yr Eglwys Newydd. C.G. 2.30pm.

# ADOLYGIADAU

## Y STORÏWR

**Dol Rwsiaidd o nofel yw cyfrol ddiwdderaf yr awdur a'r darlledwr amryddawn o Gaerdydd, Jon Gower.**




Ganwyd Gwydion McGideon ar noson enbyd o dywydd mawr yng ngorllewin Cymru. Mae gan y bachgen bach ddawn ryfeddol i ddweud stori, dawn sy'n cyfareddu ac yn ennill ffrindiau, dawn sy'n gwneud ei ffortiwn, dawn sy'n ennyn diddordeb yr awdurdodau, dawn sy'n tynnu sylw'r gwasanaethau cudd.

Dyma ddawn hefyd sy'n gwneud gelynion. Ac mae un gelyn gwaeth na'r cyfan, yn gysgod milain dros hapusrwydd Gwydion gydol ei oes...

Y Storïwr
Jon Gower
Gwasg Gomer
ISBN 9781848512412 £8.99

## Mr Perffaith – Joanna Davies

**Dyma drydedd nofel yr awdures feiddgar, Joanna Davies, sy'n dod yn wreiddiol o Gorslas, Cwm Gwendraeth ond sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd gyda'i g□r Steven a'u cath drilliw.**




Mae Mari Wyn Roberts yn 33 oed, yn gweithio i gwmni teledu yng Nghaerdydd ac yn methu dal perthynas am fwy na dwy flynedd. Mae hi eisiau'r Mr Perffaith, ond wedi bron i ugain mlynedd mae hi'n dechrau poeni fod y boi hwnnw sy'n gyfuniad perffaith o lygaid George Clooney, bochau Johnny Depp, a gwen a chorff Brad Pitt ddim yn bodoli.

Draw ar ochr arall y ddinas, mae Owen hefyd yn chwilio am gariad ar ei delerau e...

"Dwi wrth fy modd gyda byd ffilm, yn enwedig ffilmiau comedi rhamantaidd. Fe wnes i astudio ffilm yn y Coleg, a phan rwy'n sgwennu, rwy'n gweld y plot yn symud ymlaen fel mewn ffilm," meddai Joanna. "Fel llawer o ferched o'm cenhedlaeth, dwi wedi cael fy nhrwytho yn yr holl ffilmiau 'ma, y cylchgronau merched, y sôn di-baid am ddarganfod 'y dyn perffaith'. Ond roeddwn i hefyd am ofyn cwestiwn mwy dwys: ydy ffawd yn gyfrifol am ffeindio'n gwir gariad, neu ydyn ni jyst yn ffeindio rhywun weddol addas ar hap a damwain o fewn ein milltir sgwar?"

Mr Perffaith
Joanna Davies
Gwasg Gomer
£7.99 ISBN 978-1848513525
Gwefan: www.mrperffaith.co.uk Facebook: Mr Perffaith

# Antur Barry Chamberlain

"Wele'n cychwyn tair ar ddeg o longau bach ar fore teg....." Wel, na nid cweit tair ar ddeg, ond deg ohonyn' nhw, deg cwch hwylio 68 troedfedd, pob un wedi'i noddi gan ddinas, tref neu ardal, a fydd yn cymryd rhan mewn ras unigryw o amgylch y byd. Ar fwrdd bob cwch, bydd criw o bobl amrywiol, rhai â phrofiad o hwylio, ac eraill heb roi troed ar gwch erioed.



Yn eu plith, yn gwireddu breuddwyd a wynebu'r her fel aelod o griw'r "Edinburgh Inspiring Capital" bydd gŵr o'r enw Barry Chamberlain. Erbyn i chi ddarllen hyn o eiriau, bydd Barry wedi cychwyn ar y ras ac ar ei ffordd i Rio. Bydd yn dychwelyd ymhen y flwyddyn wedi galw yn Ne Affrica, De America, Awstralia, Seland Newydd, Tsieina, Gogledd America, Iwerddon a'r Iseldiroedd ar y ffordd, hwylio a rasio dros 40,000 o filltiroedd a threulio deg mis ar y môr yn cydfyw gyda chriw o ddieithriaid llwyr.

Pam fod ei antur o ddiddordeb i ddarllenwyr Y Dinesydd? Wel, mae'n gobeithio codi arian i Apêl Arch Noa er cof am ei ddiweddar wraig Beca (Walter-Jones). Mae Cronfa Deyrnged Beca, ar hyn o bryd yn dod i gyfanswm o £20,000 a'r gobaith yw ychwanegu yn sylweddol at nod cronfa Arch Noa, a'r addewid o gyfrannu £7 miliwn tuag at ail gynnal Ysbyty Plant Cymru. Gobeithia Barry y gall gadw mewn cysylltiad drwy golofnau'r Dinesydd, wrth iddo wynebu'r her yma, a chario stori Arch Noa Cymru o gwmpas y byd.

Os hoffech noddi Barry a chynorthwyo achos mor deilwng yma yng Nghaerdydd er mwyn plant a phobl ifainc Cymru gyfan, cyfeiriad y safle yw www.justgiving.com/BarryChamberlain. Am ragor o wybodaeth am y ras, edrychwch ar safle gwe "Clipper Round The World." Siwrne saff Barry!

# NAID SYLWEDDOL YN Y GALW AM ADDYSG GYNRADD GYMRAEG

Mae Sir Caerdydd wedi darparu rhifau'r plant sydd wedi sicrhau lle yn ysgolion cynradd Cymraeg y brifddinas (cyfanswm o 17 ysgol) ar gyfer 2011. Dengys y rhifau hyn y bydd 21 disgybl ar ben y 628 oedd ar y rhestr yn Ebrill. Dyma'n ddi-os y naid fwyaf ymlaen a gafwyd ers 2007, pan fu cynnydd y pryd hynny o 98 uwchben rhif 2006 - i fyny o 464 i 562. Yn ffodus 2007 oedd blwyddyn agor y pedair ysgol newydd a adwaenir bellach fel Nant Caerau, Tan-yr-eos, Penygroes a Phen-y-pil. Ni fu fawr o dwf wedi hynny tan 2010 pan gafwyd 598 yn dechrau yn yr ysgolion. Roedd rheswm i ofni y byddai plant yn cael eu colli i addysg Gymraeg am nad oedd mwy na 120 o leoedd ar gael yn nalgylchoedd Treganna (gyda Than-yr-eos) a Phwll Coch ac am nad oedd y tair ysgol newydd arall wedi cyrraedd eu safleoedd parhaol. Erbyn hyn mae'r Sir wedi sicrhau cartref parhaol i'r tair ysgol ac wedi darparu ffrwd arall yn ardal Treganna drwy agor trydedd ffrwd ym Mhwll Coch, lle mae 28 o'r 30 lleoedd newydd yn llawn.

Erbyn hyn mae dyfodol Tan-yr-eos yn glir fel rhan o'r Treganna newydd ar safle newydd gyda chynllun ar gyfer adeiladau newydd; mae'r tair arall bellach yn eu hadeiladau parhaol yng Nghaerau, Pentwyn a Trowbridge. Bu 40 plentyn yn ymgeisio am y 30 lle yn Nant Caerau; bydd 18 yn dechrau yn Ysgol Pen-y-pil a 12 ym Mhenygroes. Nid yw'r ysgol fwyaf newydd, sef Glan Ceubal yng Ngabalfa, bell ar eu hôl nhw gyda naw disgybl newydd. Mae pob ysgol arall yn llawn neu'n orlawn, gan gynnwys Glanmorfa a agorwyd chwe blynedd yn ôl yn Sblot.

Mae cyfanswm y mynediadau eleni, sef 649 dros 8%, yn uwch na rhif y llynedd. Os bydd twf tebyg erbyn 2012 fe lenwir pob lle a ddarperir ar hyn o bryd, sef 708. I sicrhau hyblygrwydd yn y system, bydd angen llefydd ychwanegol ar ben y 30 a ddaw wrth agor Treganna yn ysgol tair-ffrwd yn 2013.

Michael Jones